**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Owen Evans
Estyn

22 Chwefror 2024

Annwyl Owen,

**Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon**

Efallai eich bod yn ymwybodol o'r ffaith i'n Pwyllgor ystyried gwaith dilynol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ddiweddar ar Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon. Gwnaed y gwaith hwn yn sgil darnau eraill o waith gan yr Archwilydd Cyffredinol blaenorol yn 2013 ac yna gan yr Archwilydd Cyffredinol presennol yn 2020.

Ysgrifennodd Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor ar 19 Hydref 2023 i nodi ei ganfyddiadau. Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i'r pwnc hwn, gan gynnal sesiwn tystiolaeth lafar ar 21 Chwefror 2024 gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i edrych ar rai o gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol. Dyma rai o'r pynciau yr ymdriniodd y Pwyllgor â nhw yn ystod y sesiwn:

- Cyfraddau absenoldeb;
- Argaeledd athrawon cyflenwi;
- Cymhellion recriwtio a chadw ar gyfer athrawon cyflenwi;
- Y fframwaith asiantaeth blaenorol a'r fframwaith newydd;
- Ffioedd asiantaethau;
- Addasrwydd ac ansawdd staff asiantaeth;

- Y platfform archebu newydd a'i effaith;
- Datblygu proffesiynol staff cyflenwi; a
- Thâl ac amodau athrawon cyflenwi.

Yn dilyn y sesiwn hon, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Estyn i ofyn am eich barn am y sefyllfa bresennol yng Nghymru, gan gyfeirio at eich swyddogaethau a’ch gwaith arolygu chi, ac i’ch gwahodd i gyflwyno tystiolaeth i’n hymchwiliad, gan y gallai ein helpu gyda’n gwaith a chael ei adlewyrchu yn ein hadroddiad terfynol.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth i’n hymchwiliad, byddwn yn croesawu cael ymateb gennych erbyn dydd Gwener 29 Mawrth 2024.

Cofion,

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus